**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher, Medi 2il 2015 am 7.30 yh yng Nghanolfan Pandy Tudur

Ymddiheuriadau: Elen H Edwards, Gwyn Williams, Tecwyn Evans

Presennol: D Gwynfor Davies (Cadeirydd), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, Ian W Griffith, Emlyn Williams, Cyng Dilwyn O Roberts a'r Clerc.

Roedd dau aelod o'r cyhoedd yn bresennol a chyfieithydd Mr Glyn Jones.

43.1 CROESO – croesawyd bawb i'r cyfarfod a llongyfarchwyd y Clerc ar ddod yn nain. Ymddiheurodd y Clerc nad oedd cofnodion i'w trafod y tro hwn a bod y cyfarfod wedi ei alw i drafod ceisiadau cynllunio yn bennaf.

43.2 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda. Mynegodd y Cadeirydd D Gwynfor Davies gysylltiad ag eitem 4d) Cais Cynllunio 0/41971 a chytunwyd yn unfrydol i Ian W Griffith gadeirio'r eitem honno.

43.3 MATERION CYNLLUNIO
43.3.1 CEISIADAU ÔL-WEITHREDOL – derbyniwyd ymateb gan Ms Paula Jones, Rheolwr Rheoli Datblygu ac Adeiladu Cyngor Conwy yn diolch am ein sylwadau ond yn datgan bod y ddeddf ar hyn o bryd yn caniatáu cyflwyno ceisiadau ôl-weithredol ac y dylem ni fel Cyngor Cymuned eu trin yn yr un ffordd â cheisiadau arferol. Os oeddem yn dymuno dylem gysylltu ag Aelod y Cynulliad er mwyn ceisio newid y ddeddf ond roedd adolygiad wedi bod yn ddiweddar drwy'r Mesur Cynllunio ac mae'n annhebygol y bydd y ddeddfwriaeth hon yn cael ei newid yn y dyfodol agos.
43.3.2 CAIS RHIF 0/41917 Adeiladu pwll dŵr budr amaethyddol (ôl-weithredol) ar dir ger Hendre Llwyn y Maen, Llanfair TH gan Mr Robin Crossley – roedd teimlad anniddig bod cymaint o geisiadau ôl-weithredol wedi dod o'n blaenau ynglŷn â'r datblygiad hwn. Cynigiwyd a PHENDERFYNWYD yn unfrydol ein bod yn gofyn am gyfarfod safle ac yn anfon at y Prif Swyddog Cynllunio i ofyn pam fod chwe cais ôl-weithredol wedi ei gyflwyno i'r datblygiad hwn. Y dyddiadau a awgrymwyd ar gyfer cyfarfod safle oedd Medi 8fed neu Medi 11eg tua 6.30 yr hwyr ac yna i gynnal cyfarfod o'r Cyngor Cymuned i ddilyn am 8 o'r gloch. Y Clerc hefyd i gysylltu â'r swyddog cynllunio i wybod pryd oedd y dyddiad cau i dderbyn sylwadau ac i roi gwybod iddo am ein bwriad.
43.3.3 CAIS RHIF 0/41947 Adeiladu sied odro, seilo, sied storio llaeth, swyddfa, gosod tanc dŵr a chreu ardaloedd dal cysylltiedig a thraciau (ôl-weithredol) ar dir ger Hendre Llwyn y Maen, Llanfair TH gan Mr Robin Crossley. PENDERFYNWYD fel yr uchod i gael cyfarfod safle.
43.3.4 CAIS RHIF 0/41919 Cais ôl-weithredol i gadw balconi presennol ar y drychiad dwyreiniol yn 1 Tyddyn Uchaf Cottages, Llangernyw gan Mr David Hull. Daeth Diane Roberts â dogfen berthnasol o'r wefan cynllunio i'r cyfarfod lle roedd yn mynegi bod y datblygiad yn 'risk of flooding'. PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais ond roedd Diane Roberts yn gwrthwynebu. Hefyd i ofyn i'r Adran Cynllunio pam fod dogfen ar y wefan cynllunio ynglyn â'r cais ond nad oedd sôn amdano yn y cais a ddaeth o'n blaenau.
43.3.5 CAIS RHIF 0/41972 Gosod is-orsaf, ceblau tanddaearol cysylltiedig a thrac mynediad i gysylltu Tyrbinau Gwynt cymeradwy Pen y Bryn, i'r gogledd orllewin o Langernyw â'r

rhwydwaith grid lleol yn Pen y Bryn, Trofarth gan Mr John Dilwyn Roberts. PENDERFYNWYD yn unfrydol i wrthwynebu'r cais oherwydd ein bod wedi gwrthwynebu'r cais gwreiddiol i osod tyrbinau gwynt.
43.3.6 CAIS RHIF 0/41973 Trosi adeilad amaethyddol gwag i ffurfio llety gwyliau yn Maesol, Cae'r Llo, Llangernyw gan Mr a Mrs S Dalton. PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
43.3.7 CAIS RHIF 0/42002 Gosod tŵr gorsaf telathrebu a rennir sydd yn 18 metr o uchder gyda chwe antenna a chypyrddau offer cysylltiedig ar y ddaear ar dir i'r de o Pen y Fron, Gwytherin gan Arqiva. PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
43.3.8 CAIS RHIF0/41971 Trawsnewid adeiladau fferm gwag i greu annedd newydd ar ddaliad fferm bresennol yn Nant y Wrach Bach, Llanrwst gan Mr a Mrs Gwynfor Davies. Gadawodd y Cadeirydd y cyfarfod a daeth Ian W Griffith i'r gadair. PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais ond i nodi bod yr enw 'Nant y Wrach Fawr' ar y ffurflen gais.
Daeth D Gwynfor Davies yn ôl i'r gadair.
43.3.9 Mynegodd Diane Roberts ac Ian Griffith un sylw a gododd yn y Cwrs Cymorth Cynllunio sef pam na all y llythyr penderfyniad ei osod ar y wefan gynllunio gyda'r cais perthnasol ar y diwedd. Y Clerc i wneud ymholiadau.

43.4 CYFARFOD BLYNYDDOL UN LLAIS CYMRU 3YDD HYDREF – dewisiwyd y Cadeirydd i fynychu neu bydd angen eilydd os bydd yn methu.

43.5 GOHEBIAETH – Newidiadau i Wasanaethau Merched a Mamolaeth – i'w roi ar y Agenda nesaf a'i anfon ar ebost i'r aelodau. Bydd modd rhoi sylwadau fel Cyngor neu fel unigolyn.
Prosiect Gwella Cynefin Dyffryn Elwy – cyfarfod agored yn Llanfair TH ar Fedi 9fed.

43.6 HYFFORDDIANT UN LLAIS – mynegodd Ann Vaughan ddiddordeb mewn mynychu cwrs Deall y Gyfraith ym Mhenmaenmawr ar 16eg Medi.

43.7 MATERION LLEOL
43.7.1 Arwydd tro ger Ddol Bach wedi ei guddio yn y gwrych.
43.7.2 Angen gofyn beth ddigwyddodd i Brosiect Hiraethog a'r arian gan nad yw'r gwaith wedi ei gyflawni yn Llangernyw na Phandy Tudur.
43.7.3 Arwyddion 'chevrons' wedi eu cuddio yn y gwrych ger pont Dolhyfryd, A548.
43.7.4 Llongyfarchwyd rhai o'r fro fu'n llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
43.7.5 Blychau blodau y Pentrefi – angen ei roi ar yr Agenda nesaf.
43.7.6 Atgoffwyd yr aelodau am y penwythnos Drysau Agored yn y Cwm a Hafodunos.

43.8 BILIAU

| | |
|---|---|
| D Evans (Pumed Toriad Mynwentydd) | £360 |
| Un Llais Cymru (Cyfarfod Blynyddol) | £75 |

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15 yr hwyr.

*Cymeradwywyd y Cofnodion ......D G Davies............................ Dyddiad ..30.9.15.....*

Community Council Meeting was held on Wednesday, September 2nd 2015 at 7.30 pm at Pandy Tudur Community Centre

Apologies: Elen H. Edwards, Gwyn Williams, Tecwyn Evans

Present: D Gwynfor Davies (Chair), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, Ian W Griffith, Emlyn Williams, Cllr Dilwyn O Roberts and Clerk.
Two members of the public were present and translator Mr Glyn Jones.

43.1 WELCOME – the Chairman welcomed everyone to the meeting and congratulated the Clerk on becoming a grandmother.
The Clerk apologized there were no minutes to be discussed this time and that the meeting had been called to discuss planning applications primarily.
43.2 DECLARATION - gave members the opportunity to declare a connection with an item on the agenda. The Chairman D Gwynfor Davies expressed connection with item 4d) Planning Application 0/41971 and it was agreed unanimously for Ian W Griffith to chair that item.

43.3 PLANNING MATTERS
43.3.1 RETROSPECTIVE APPLICATIONS - a response from Ms Paula Jones, Manager of Development and Building Control Conwy Council thanking us for our comments but states that the law currently allows introducing retrospective applications and that we as a Community Council should treat them in the same way as normal applications. If we wished we should contact Assembly Member seeking to change the law but there had been a recent review of the Planning Bill and it is unlikely that this legislation will be changed in the near future.
43.3.2 APPLICATION NUMBER 0/41917 Construction of agricultural dirty water pit (retrospective) at land adjacent to Hendre Llwyn y Maen, Llanfair TH by Mr Robin Crossley – the Council felt uneasy that so many retrospective applications have come before us on this development. Proposed and unanimously RESOLVED that we request a site meeting and contact to the Chief Planning Officer asking why six retrospective applications have been submitted for this development. The dates suggested for a site meeting was September 8 or September 11 around 6.30pm and then to hold a meeting of the Community Council to follow at 8 o'clock. The Clerk also to contact the planning officer to know when was the deadline for comments and to inform him of our intention.
43.3.3 APPLICATION NUMBER 0/41947 Construction of milking shed, silo, milk storage shed, office, water tank and associated holding areas and tracks (retrospective) at land adjacent to Hendre Llwyn y Maen, Llanfair TH by Mr Robin Crossley. RESOLVED as above to hold a site meeting.
43.3.4 APPLICATION NUMBER 0/41919 Retrospective application for retention of existing balcony to east elevation at 1 Tyddyn Uchaf Cottages, Llangernyw by Mr David Hull. Diane Roberts shared a relevant document from planning website where it was expressed that the development would be 'risk of flooding'. RESOLVED to support the application but Diane Roberts opposed. Also to ask the Planning Department why a planning document on the application could be seen on the website but it wasn’t mentioned in the application that came before us.
43.3.5 APPLICATION NUMBER 0/41972 Installation of a substation, associated underground cabling and access track to connect the approved Pen y Bryn Wind Turbines, northwest of Llangernyw to the local grid network at Pen y Bryn Farm,

Trofarth by Mr John Dilwyn Roberts. RESOLVED unanimously to oppose the application because we have objected to the original application to install wind turbines.
43.3.6 APPLICATION NUMBER 0/41973 Conversion of vacant agricultural building to form holiday accommodation at Maesol, Cae'r Llo, Llangernyw by Mr and Mrs S Dalton. RESOLVED unanimously to support the application.
43.3.7 APPLICATION NUMBER 0/42002 Installation of an 18 metre high shared telecommunication base station tower with six antennas and associated ground-based equipment cabinets on land south of Pen y Fron, Gwytherin by Arqiva. RESOLVED unanimously to support the application.
43.3.8 APPLICATION NUMBER 0/41971 Conversion of redundant farm buildings to create new dwelling on existing farm holding at Nant y Wrach Bach, Llanrwst by Mr and Mrs Gwynfor Davies. The Chairman left the meeting and Ian W Griffith became the chair. RESOLVED unanimously to support the application but to point out that the name 'Nant y Wrach Fawr' appeared on the application form.
D Gwynfor Davies came back to the chair.
43.3.9 Diane Roberts and Ian Griffith raised one question that arose in the Planning Aid course which is why can the decision letter not be placed on website with relevant applications after decision has been made. Clerk to make inquiries.

43.4 ANNUAL MEETING ONE VOICE WALES 3RD OCTOBER - The Chair was chosen to attend or will need a substitute if he fails.

43.5 CORRESPONDENCE - Changes to Maternity and Women's Services - to put on the next agenda and email to members. Council will be able to comment as a council or as an individual.
Elwy Valley Habitat Improvement Project - an open meeting at Llanfair TH on September 9th.

43.6 ONE VOICE WALES TRAINING - Ann Vaughan expressed interest in attending Understanding Law in Penmaenmawr on 16th September.

43.7 LOCAL ISSUES
43.7.1 Bend in the road near Ddol Bach is hidden in the hedge.
43.7.2 Need to ask what happened to the Hiraethog Project money because the work has not been completed in Llangernyw and Pandy Tudur.
43.7.3 Chevron signs are hidden in the hedge near Dolhyfryd bridge, A548.
43.7.4 Congratulations to many from the area on their success in the National Eisteddfod.
43.7.5 Village flower boxes - needs to be put on the next agenda.
43.7.6 Members were reminded about the Open Doors weekend in the Cwm Museum and Hafodunos.

43.8 BILLS
D Evans (Fifth Cut to Cemetery) £ 360
One Voice Wales (AGM) £ 75
The meeting came to a close at 9.15 pm.
Approved the Minutes ...........*D G Davies* .......Date *30.9.15*...................... ..